



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Cwestiynau Cyffredin | Gwasanaethau Mamolaeth –

Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Ymweliadau â'r Uned/Ward

Famolaeth i bartneriaid-

- Bydd gofyn i'r rheiny sy'n dod am ymgynghoriad a sgan cyn-genï aros y tu allan i'r adran tan adeg eu hapwyntiad.
- Bydd gofyn i'r rhai sy'n bresennol wisgo masg wyneb (oni bai eu bod wedi'u heithrio yn feddygol).
- Byddwn ni'n gwirio a oes symptomau gyda chi cyn i chi ddod i'r adran mamolaeth.
- Os oes symptomau COVID-19 gyda chi, byddwn ni'n gofyn i chi beidio â dod i mewn i'r adran.
- Byddwn ni'n gofyn i chi ddiheintio eich dwylo wrth ddod i mewn i'r adran mamolaeth ac wrth adael.
- Yn gyffredinol, byddwn ni'n gofyn i chi aros yn yr ystafell neu'r man lle rydyn ni'n gofalu am eich partner er mwyn atal ymwelwyr rhag ymgasglu yn yr adran mamolaeth.
- Dydyn ni ddim yn gallu darparu bwyd na diod fel arfer, a dylai partneriaid/unigolion sy'n rhoi cymorth ddod ag unrhyw eitemau, bwyd neu ddiod sydd eu hangen arnynt.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod gyda fi i sgan/apwyntiad yn ystod camau cynnar fy meichiogrwydd?

Ydy, gall un partner geni/person cymorth ddod gyda chi i unrhyw sgan/apwyntiad yn ystod camau cynnar eich beichiogrwydd.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod i fy sgan dyddio?

Ydy, gall un partner geni/person cymorth ddod i'ch sgan dyddio.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod i fy sgan anomaledd 20 wythnos?

Ydy, gall un partner geni/person cymorth ddod i'ch sgan anomaledd 20 wythnos.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod i fy sgan(iau) twf?

Ydy, gall un partner geni/person cymorth ddod i'ch sgan(iau) twf.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod gyda fi i apwyntiad neu ymgynghoriad beichiogrwydd?

Os ydy eich apwyntiad yn un o glinigau cyn-genï'r adran mamolaeth neu yn yr ysbyty, bydd un partner geni/person cymorth yn gallu dod gyda chi.

Os ydych chi'n mynd i apwyntiad gyda'r fydwraig gymunedol yn eich meddygfa, bydd modd i bartner geni/person cymorth ddod yn dibynnu ar asesiad risg eich meddygfa. Byddan nhw'n rhoi gwybod i chi a fydd modd i'ch person cymorth ddod ai peidio.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod gyda fi i apwyntiad i sgubo'r pilenni (membrane sweep)?

Os ydy eich apwyntiad yn un o glinigau cyn-genï'r adran mamolaeth neu yn yr ysbyty, bydd un partner geni/person cymorth yn gallu dod gyda chi.

Os ydych chi'n mynd i apwyntiad gyda'r fydwraig gymunedol yn eich meddygfa, bydd modd i bartner geni/person cymorth ddod yn dibynnu ar asesiad risg eich meddygfa. Byddan nhw'n rhoi gwybod i chi a fydd modd i'ch person cymorth ddod ai peidio.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod pan fydda i'n dechrau rhoi genedigaeth?

Ar ddechrau'r geni, bydd pob menyw yn cael cynnig asesiad gartref neu yn ei dewis fan geni. Bydd un partner geni neu berson gymorth yn gallu dod yn ystod yr asesiad hwn.

Os ydych chi'n barod i roi genedigaeth, byddwch chi'n symud i ystafell geni sengl lle bydd eich partner geni neu berson cymorth yn aros er mwyn rhoi cymorth i chi yn ystod y geni.

Yn aml, os na fyddwch chi'n barod i roi genedigaeth, byddwn ni'n eich annog i fynd adref ac aros yng nghysur eich amgylchedd eich hun.

Os byddwch chi'n penderfynu aros yn yr ysbyty, bydd un partner geni neu berson cymorth yn cael aros yn y ward cyn-genï am slot o 4 awr.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod pan fydda i'n barod i roi genedigaeth?

Pan fyddwch chi'n barod i roi genedigaeth, bydd un partner geni neu berson cymorth yn gallu bod gyda chi drwy gydol y geni ac am sawl awr ar ôl y geni, nes i chi gael eich trosglwyddo i'r ward ôl-genï. Ar yr adeg hon, bydd rhai menywod yn dewis cael eu rhyddhau o'r ganolfan neu ward geni er mwyn mynd adref.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod os bydda i'n cael genedigaeth Cesaraidd?

Bydd un partner geni neu berson cymorth yn gallu dod gyda chi ar gyfer eich genedigaeth Cesaraidd o'r adeg i chi gael gofal ar y ward geni mewn ystafell sengl, drwy gydol y geni yn y theatr, ac am sawl awr ar ôl y geni (nes i chi gael eich trosglwyddo i'r ward ôl-genï).

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod os ydw i'n cael fy nerbyn yn annisgwyl i ysbyty neu ward (e.e. gan fy mod i'n cael trafferth yn symud)?

Bydd un partner geni neu berson cymorth enwebedig yn gallu bod yn bresennol gyda chi os cewch chi eich derbyn i'r ysbyty yn annisgwyl, os byddwch chi mewn man lle mae ystafelloedd brysbennu sengl.

Os cewch chi eich derbyn i fan neu leoliad sydd heb ystafelloedd sengl, bydd presenoldeb partner geni enwebedig yn dibynnu ar brysurdeb.

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod pan fydd rhaid prysuro'r geni?

Bydd un partner geni neu berson cymorth yn gallu ymweld am slot o 4 awr (bydd slotiau ar gael i sicrhau na fydd mwy na 3 pherson cymorth fesul bae ar unrhyw adeg).

Bydd slotiau ymweld ar gael rhwng 10.00-14.00 ar gyfer gwelyau 1/3/5. Bydd slotiau ymweld ar gael rhwng 14.30-18:30 ar gyfer gwelyau 2/4/6

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod i ymweld â fi yn y ward ôl-geni?

Bydd un partner geni neu berson cymorth yn gallu ymweld am slot o 4 awr (bydd slotiau ar gael i sicrhau na fydd mwy na 3 pherson cymorth fesul bae ar unrhyw adeg).

Bydd slotiau ymweld ar gael rhwng 10.00-14.00 ar gyfer gwelyau 1/3/5. Bydd slotiau ymweld ar gael rhwng 14.30-18:30 ar gyfer gwelyau 2/4/6

Ydy fy mhartner neu berson cymorth yn gallu dod os ydw i'n rhoi genedigaeth mewn canolfan geni dan arweiniad bydwagedd?

Pan fyddwch chi'n rhoi genedigaeth, bydd un partner geni neu berson cymorth enwebedig yn gallu dod gyda chi drwy gydol y geni ac ar gyfer eich holl ofal ar ôl rhoi genedigaeth, gan y bydd hyn mewn ystafell sengl.